

Rhif: WG34368



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Llywodraeth Cymru  
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

## **Y Bil Deddfwriaeth (Cymru) Drafft**

Medi 2018

## **Trosolwg**

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion a dderbyniodd Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad ar y Bil Deddfwriaeth Cymru (Drafft).

## **Cynulleidfa**

Gweithwyr cyfreithiol proffesiynol, y farnwriaeth, cyrff cynrychioliadol, cyrff y sector cyhoeddus, academyddion, grwpiau â buddiant, y sector gwirfoddol, ac unigolion sydd â buddiant yn hygyrchedd a dehongliad statudol cyfraith Cymru.

## **Camau i'w cymryd**

Er gwybodaeth yn unig.

## **Rhagor o wybodaeth**

Dylid anfon ymholiadau ynglŷn â'r ddogfen hon i:

Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

E-bost: [CwnsleriaidDeddfwriaethol@llyw.cymru](mailto:CwnsleriaidDeddfwriaethol@llyw.cymru)

Rhif ffôn: 0300 025 0375

## **Copïau ychwanegol**

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn:

<https://beta.llyw.cymru/y-bil-deddfwriaeth-cymru-drafft>

## Cynnwys

Pennod 1 – Cyflwyniad.....	5
Cynigion.....	5
Dull ymgynghori .....	6
Ymatebion i'r ymgynghoriad .....	6
Pennod 2 – Hygyrchedd Cyfraith Cymru .....	8
Pennod 3 – Dehongliad Statudol Cyfraith Cymru .....	10
Barn gyffredinol am Ran 2 o'r Bil .....	10
Cymhwyso Rhan 2 o Fil Deddfwriaeth (Cymru).....	11
Barn am reolau a darpariaethau penodol yn Rhan 2 o'r Bil Drafft.....	12
Adran 5 (Diffiniadau o eiriau ac ymadroddion) ac Atodlen 1 (Diffiniadau o eiriau ac ymadroddion) .....	12
Adran 7 (Nid yw geiriau sy'n dynodi rhywedd yn gyfyngedig i'r rhywedd hwnnw) .....	14
Adran 8 (Amrywio geiriau ac ymadroddion oherwydd gramadeg etc.) .....	14
Adran 9 (Cyfeiriadau at gyfnodau o amser) .....	15
Cyflwyno dogfennau drwy'r post neu'n electronig .....	15
Adran 16 (Arfer pŵer sydd eto i ddod i rym neu gyflawni dyletswydd nad yw eto mewn grym) .....	17
Adran 18 (Dirymu, diwygio ac ailddeddfu is-ddeddfwriaeth) .....	17
Adran 19 (Diwygio is-ddeddfwriaeth gan Ddeddf gan y Cynulliad).....	18
Adran 20 (Amrywio cyfarwyddydau a'u tynnu'n ôl) .....	18
Adran 22 (Mae cyfeiriadau at ddeddfwriaeth yn gyfeiriadau at ddeddfwriaeth fel y'i diwygiwyd) .....	19
Adran 26 (Troseddau dyblyg).....	19
Adran 27 (Cymhwyso Deddfau gan y Cynulliad ac is-offerynnau Cymreig i'r Goron).....	19
Adran 30 (Gorchmynion a rheoliadau sy'n dwyn deddfwriaeth i rym) .....	20
Adran 35(2)(a) (Diddymu, dirymu neu ailddeddfu deddfwriaeth)).....	20
Adran 33 (Ailddeddfu) .....	21
Adran 34 (Cyfeirio at Ddeddf gan y Cynulliad yn ôl ei henw byr ar ôl iddi gael ei diddymu) .....	21
Pennod 4 – Materion eraill a godwyd wrth ymgynghori .....	22

Enwau cwrteisi .....	22
Safoni termau deddfwriaethol.....	22
Deddf Llywodraeth Cymru 2006.....	23
Materion eraill a godwyd wrth ymgynghori.....	23
Codeiddio Cyfraith Cymru .....	23
Adnoddau i gyflwyno'r rhaglen .....	24
Cyhoeddi .....	24
Dehongli.....	24
Pennod 5 – Asesiadau o effaith a'r Gymraeg.....	25
Atodiad A – Rhestr o ymatebwyr .....	27

## Pennod 1 – Cyflwyniad

---

1. Mae'r gyfraith yn gwbl anhepgor i gymdeithas wâr. Y gyfraith yw sylfaen cyfiawnder ac mae'n pennu hawliau a chyfrifoldebau dinasyddion. Gall fod yn anodd deall pa ddeddfwriaeth sy'n gymwys a gwybod a ydyw'r ddeddfwriaeth honno yn gyfredol. Mae setliad datganoli cymhleth a llyfr statud a etifeddiad na chafodd ei gynllunio ar gyfer amrywiadau yn y gyfraith, yn arbennig rhwng Cymru a Lloegr, yn golygu bod y sefyllfa yn fwy dyrys eto yng Nghymru. At hynny, er bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ddeddfwrfa ddwyieithog, nid oes fersiynau Cymraeg a Saesneg cyfredol ar gael o'r holl ddeddfwriaeth sy'n gymwys yng Nghymru ar hyn o bryd. O ganlyniad, bu galwadau ar Lywodraeth Cymru i gymryd camau i wella hygyrchedd y gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru.
2. Y broses o bennu ystyr ac effaith deddfwriaeth, a sut y mae'n gweithredu, yw dehongli statudol. Mae deddfau sy'n rhagnodi rheolau ynglŷn â'r ffordd y dylid dehongli cyfreithiau yn nodwedd gyffredin o awdurdodaethau cyfreithiol ar draws gwledydd y gyfraith gyffredin. Diben deddfau o'r fath yw byrhau a symleiddio deddfwriaeth ac annog cysondeb o ran iaith, ffurf a'r ffordd y'i gweithredir. Ar hyn o bryd, mae'r holl gyfreithiau sy'n gymwys yng Nghymru yn cael eu dehongli drwy gyfeirio at Ddeddf Senedd y Deyrnas Unedig (DU), sef Deddf Dehongli 1978 (Deddf 1978), sydd ar gael yn Saesneg yn unig. Cafwyd cadarnhad wedi i Lywodraeth Cymru ymgynghori yn y gorffennol fod cefnogaeth i'r egwyddor o gael darpariaeth ddehongli ddwyieithog i Gymru, sydd wedi'i theilwra at anghenion Cymru a'r gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru.
3. Ar 20 Mawrth 2018 cyhoeddwyd y Bil Deddfwriaeth (Cymru) Drafft ("y Bil Drafft"), a'r ddogfen ymgynghori a'r asesiadau effaith cysylltiedig<sup>1</sup> ar wefan Llywodraeth Cymru i fod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad dros gyfnod o 12 wythnos a ddaeth i ben ar 12 Mehefin 2018.

### Cynigion

4. Roedd yr ymgynghoriad yn amlinellu cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella hygyrchedd a dehongliad statudol cyfraith Cymru, ac roedd yn ceisio barn am y Bil Drafft.

---

<sup>1</sup> <https://beta.llyw.cymru/y-bil-deddfwriaeth-cymru-drafft>

## Dull ymgynghori

5. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar wefan Llywodraeth Cymru a chafodd ei anfon drwy'r e-bost at randdeiliaid â ganddynt fuddiant uniongyrchol yn hygyrchedd a dehongliad statudol y gyfraith. Anfonwyd negeseuon e-bost rheolaidd at randdeiliaid hefyd yn ystod y cyfnod ymgynghori. Gwelwyd y tudalennau ar wefan Llywodraeth Cymru bron i 1,900 o weithiau, a'r fersiwn Gymraeg 166 o weithiau.
6. Yn ystod y cyfnod ymgynghori, cynhaliodd y Cwnsler Cyffredinol ddau ddiwyddiad ymgynghori – y naill ym Mangor a'r llall yn Abertawe – a bu'n bresennol hefyd mewn digwyddiad a drefnwyd gan Gymdeithas y Cyfreithwyr yng Nghaerdydd. Nod y tri chyfarfod hyn oedd egluro'r materion a amlinellwyd yn yr ymgynghoriad i randdeiliaid a chael eu barn nhw am y cynigion. Codwyd y materion gan y Cwnsler Cyffredinol hefyd yn ei gyfarfodydd rheolaidd â gweithwyr cyfreithiol proffesiynol, academyddion, myfyrwyr y gyfraith a chwmnïau cyfreithiol.
7. Darparodd y Cwnsler Cyffredinol wybodaeth dechnegol am y Bil Drafft i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol<sup>2</sup> ar 14 Mai 2018.

## Ymatebion i'r ymgynghoriad

8. Derbyniwyd 20 o ymatebion ysgrifenedig oddi wrth randdeiliaid, gan gynnwys dau oddi wrth yr un ymatebydd<sup>3</sup>. Cafwyd ymatebion gan unigolion a sefydliadau sy'n cynrychioli gwahanol sectorau ar draws Cymru a'r DU.
9. Gallai'r ymatebwyr gyflwyno eu safbwyntiau a'u sylwadau ar bapur neu ar-lein, yn y Gymraeg neu'r Saesneg.
10. Dewisodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr ganolbwyntio ar gwestiynau penodol a darparodd rai ohonynt sylwadau ychwanegol hefyd. Mae'r holl ymatebion wedi'u dadansoddi a'u nodi.
11. Rydym yn ddiolchgar i bawb a gyflwynodd ymatebion i'n cynigion ymgynghori. Mae'r ymatebion yn cynnwys cyfoeth o safbwyntiau, gwybodaeth a syniadau a fydd yn cael eu defnyddio i fireinio'r cynigion deddfwriaethol sydd i'w cynnwys yn y Bil, a'u ffurfio, a bydd y Bil yn cael ei gyflwyno yn y Cynulliad Cenedlaethol yn hwyrach yn ystod y flwyddyn. Byddant hefyd yn dylanwadu ar y rhaglen ehangach ar gyfer gwella hygyrchedd cyfraith Cymru.

---

<sup>2</sup> <http://cofnod.cynulliad.cymru/Committee/4765>

<sup>3</sup> Mae'r ddau ymateb ysgrifenedig yn cael eu cyfrif fel un, gyda chydysyniad yr ymatebydd, ond yn cael eu cyhoeddi ar wahân.

12. Mae crynodeb o'r ymatebion i bob cwestiwn i'w gweld isod. Amgaeir rhestr o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn Atodiad A. Mae'r ymatebion unigol i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru:

<https://beta.llyw.cymru/y-bil-deddfwriaeth-cymru-drafft>

## Pennod 2 – Hygyrchedd Cyfraith Cymru

---

13. Roedd y ddogfen ymgynghori yn ymchwilio i'r rhesymau pam mae'r gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru yn anhygyrch ac yn ystyried sut y gellir gwella hygyrchedd. Mae Rhan 1 o'r Bil Drafft yn nodi cynigion deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer mynd i'r afael â'r materion hyn a gwella hygyrchedd cyfraith Cymru.

**Cwestiwn 1:** A ydych yn cytuno bod angen gorfodi rhwymedigaeth statudol ar lywodraethau'r dyfodol yng Nghymru er mwyn gwella hygyrchedd cyfraith Cymru?

**Cwestiwn 2:** Os ydych, a ydych yn cytuno â'r dull gweithredu a ddefnyddir yn Rhan 1 o'r Bil Drafft i orfodi rhwymedigaeth o'r fath?

14. Roedd gan 19 o'r 20 o ymatebwyr sylwadau ynghylch Rhan 1 o'r Bil. Roedd pob un ohonynt o blaid bwriad Llywodraeth Cymru i wella hygyrchedd, ac roedd y mwyafrif helaeth yn meddwl y byddai'n fuddiol creu rhwymedigaethau newydd i fynd i'r afael â'r materion hyn.
15. Credai'r ymatebwyr a wnaeth sylwadau fod angen gorfodi dyletswydd yn y ffordd a gynigir yn y Bil Drafft a rhoesant amryw o resymau dros feddwl fel hyn. Dywedwyd yn ymateb cwmni Capital Law “...[the] reality is that underpinning the requirement as a duty will inject a momentum into a proposition that may have less force as a pure policy objective.” Yn yr un modd, teimlai aelodau Cymdeithas Ddysgedig Cymru efallai nad oes angen deddfu. Barn aelodau'r Gymdeithas oedd bod Bil sy'n datgan mai ei ddiben yw hyrwyddo hygyrchedd cyfraith Cymru yn rhywbeth y dylid, yn ddi-os, ei groesawu a'i gymeradwyo.
16. Ymhlith rhesymau eraill dros gefnogi'r cynnig, dywedwyd: bod angen gweithredu cyn gynted â phosibl; bod angen cefnogaeth dros gyfnod hir ar gyfer gwneud hyn (cydnabu'r ymatebwyr y byddai'r dasg o gydgrynhoi a chodeiddio cyfraith Cymru yn cymryd cryn dipyn o amser) ac y byddai rhwymedigaeth barhaus yn fecanwaith priodol felly<sup>4</sup>; a bod manteision i'r Gymraeg pe byddai'r gyfraith ar gael yn y ddwy iaith (yn arbennig gan fod llawer o'r gyfraith bresennol sy'n gymwys yng Nghymru wedi cael ei gwneud yn Saesneg yn unig).
17. Nid ystyriai Dr Catrin Fflûr Huws fod angen deddfu, oherwydd gellid dadlau fod y swyddogaethau a oedd yn cael eu cynnig ar gyfer y Cwnsler Cyffredinol yn

---

<sup>4</sup> Er enghraifft, awgrymodd Trevor Coxon y byddai rhwymedigaeth statudol ar lywodraethau olynol yn sicrhau nad menter un weinyddiaeth yn unig fyddai hon.



rhai y gellid eu cynnwys ar y rhestr o swyddogaethau Gweinidogol. At hynny, roedd gan Dr Huws Bryderon hefyd na fyddai'r ddyletswydd ei hun yn gwneud unrhyw wahaniaeth mewn gwirionedd o ran hygyrchedd y gyfraith.

18. Soniwyd am berygl tebyg yn ymateb Cymdeithas Ddysgedig Cymru: *"The temptation to consider that the creation of a duty to make laws accessibility is equivalent to delivering accessibility needs to be avoided."*
19. Cafwyd amryw o sylwadau manwl gan Gymdeithas Cyfreithwyr Cymry Llundain ar y dull gweithredu a ddefnyddiwyd i orfodi'r rhwymedigaeth. Roedd ganddynt bryderon na fyddai cynigion Llywodraeth Cymru i gydgrynhoi deddfwriaeth yn gwireddu uchelgais cynigion Comisiwn y Gyfraith yn ei adroddiad, *Ffurf a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n Gymwys yng Nghymru*.
20. Fodd bynnag, dywedwyd yn ymateb Comisiwn y Gyfraith eu bod yn cytuno'n gryf â'r rhwymedigaeth statudol a gynigiwyd a'r dull gweithredu a amlinellwyd yn y Bil Drafft. Dywedwyd yn yr ymateb hefyd:

*Placing the Counsel General under a duty to keep the accessibility of Welsh law under review..., together with the Counsel General's and the Welsh Ministers' joint duty to present a programme of activities to each newly elected Assembly and report periodically on its progress ... are in our view an eminently suitable way of giving effect to our recommendations.*

21. Galwodd rhai o'r ymatebwyr am ragor o wybodaeth ac eglurhad ynghylch ystyr cydgrynhoi a chodeiddio deddfwriaeth, a sut y bydd Codau Cyfraith Cymru yn cael eu cadw wedi iddynt gael eu gwneud. Roedd ymatebwyr eraill yn awyddus i gael 'map' o Godau'r dyfodol, a manylion yr hyn y byddent yn ei gynnwys. Yn ôl ymatebwyr eraill, byddai'n ddymunol cael mwy o fanylion hefyd ynghylch y gweithgareddau a fyddai'n cael eu cynnal i hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.
22. Roedd rhai o'r newidiadau i'r Bil a awgrymwyd gan ymatebwyr yn ymwneud â diffiniadau (er enghraifft, ystyr "cyfraith Cymru"), ac roedd eraill yn gysylltiedig â pharatoi'r rhaglen (er enghraifft, dylai fod yn ofynnol ei pharatoi mewn 'Saesneg Clir'), neu greu ddyletswydd i roi'r rhaglen ar waith. Croesawodd Capital Law y cynnig i ymgynghori ar y rhaglen ddrafft, a chafodd natur yr ymgynghoriad ei chrybwyll hefyd yn yr ymateb gan Grŵp Ymchwil ar Gyfraith Gyhoeddus Ysgol y Gyfraith Bangor.
23. Tynnodd ymateb myfyrwyr sy'n ymgymryd â Chwrs Diploma yn y Gyfraith i Raddedigion Prifysgol Caerdydd sylw at y goblygiadau o ran adnoddau o baratoi a chyflwyno'r rhaglen arfaethedig a'r fenter ehangach ar gyfer gwella hygyrchedd. Codwyd pwyntiau tebyg gan ymatebwyr eraill hefyd.

## **Pennod 3 – Dehongliad Statudol Cyfraith Cymru**

---

24. Mae Rhan 2 o'r Bil Drafft yn nodi cynigion deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer y dehongliad statudol o gyfraith Cymru. Roedd y ddogfen ymgynghori yn cynnwys eglurhad adran wrth adran o Ran 2 o'r Bil, ac yn gofyn cwestiynau manwl ynglŷn ag adrannau penodol.

### **Barn gyffredinol am Ran 2 o'r Bil**

25. Ar y cyfan, roedd y sylwadau ar y Rhan hon o'r Bil yn cefnogi'r cynigion i ddatblygu darpariaeth ddehongli ar wahân, addas at y diben, i Gymru.
26. Mynegodd rhai o'r ymatebwyr bryderon ynghylch y dryswch posibl y gallai gweithredu dwy Ddeddf ddehongli ei achosi<sup>5</sup>. Dywedwyd ei bod yn bwysig sicrhau ei bod yn gwbl eglur pa Ddeddf ddehongli sy'n berthnasol i bob darn o ddeddfwriaeth.
27. Croesawodd rhai o'r ymatebwyr y cynnig y byddai Rhan 2 o'r Bil yn dod i rym ar 1 Ionawr y flwyddyn wedi iddo gael ei basio. Yn eu barn nhw, roedd y cynnig hwn yn golygu bod modd gwahaniaethu mewn modd clir, syml a synhwyrol rhwng y ddeddfwriaeth y byddai'r ddarpariaeth newydd i Gymru yn gymwys iddi a'r ddeddfwriaeth honno y byddai'r Ddeddf 1978 bresennol yn parhau'n gymwys iddi. Fodd bynnag, awgrymodd rhai ymatebwyr, er mwyn sicrhau ei bod yn gwbl glir pa Ddeddf fyddai'n gymwys, y byddai'n bwysig defnyddio dulliau o gyfeirio at y Ddeddf ddehongli benodol. Er enghraifft, gellid nodi pa Ddeddf sy'n gymwys yn y Nodiadau Esboniadol, neu ddefnyddio dolenni ar wefan [legislation.gov.uk](http://legislation.gov.uk) o bosibl, neu drwy ddarpariaeth ar wyneb y ddeddfwriaeth.
28. Tynnodd rhai ymatebwyr sylw at y rhwystr difrifol sy'n wynebu'r rheini sydd am ddefnyddio Cymraeg fel iaith cyfraith yn sgil gorfod dibynnu ar Ddeddf Senedd y DU (sy'n dyddio o gyfnod cyn y setliad datganoli) sydd ar gael yn Saesneg yn unig.
29. Dywedodd ymatebwyr hefyd fod angen gwella'r darpariaethau dehongli presennol, nad ydynt bob amser mor glir a hygyrch ag y gallent fod.

---

<sup>5</sup>Bydd Ddeddf 1978 yn parhau'n gymwys, i'r graddau y bo'n berthnasol, i rywfaint o'r gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru – gweler paragraff 59 o'r ddogfen ymgynghori i gael rhagor o wybodaeth.

## Cymhwyso Rhan 2 o Fil Deddfwriaeth (Cymru)

30. Mae'r ddogfen ymgynghori yn amlinellu'r materion a ystyriodd Llywodraeth Cymru wrth bennu'r ddeddfwriaeth y byddai Rhan 2 o'r Bil yn gymwys iddi – gweler paragraffau 57 i 69 (tudalennau 24 i 28) o'r ddogfen ymgynghori.
31. Gofynnwyd cwestiynau penodol yn y ddogfen ymgynghori am ddull arfaethedig Llywodraeth Cymru ar gyfer cymhwyso, y darperir ar ei gyfer yn adran 3 o'r Bil Drafft.

**Cwestiwn 3:** A ydych yn cytuno â'r dull gweithredu ynghylch cymhwyso Rhan 2 o'r Bil Drafft?

32. Cafwyd un ar ddeg o ymatebion i'r cwestiwn hwn ac, ar y cyfan, roedd pob un ohonynt yn cefnogi'r model ar gyfer cymhwyso a gynigiwyd yn Rhan 2 o'r Bil Drafft.
33. Cytunai Capital Law â'r cynnig i beidio â mynd ati i gymhwyso'n ôl-weithredol y ddarpariaeth ddehongli yn Rhan 2. Fodd bynnag, teimlai Keith Bush CF y byddai hyn yn groes i'r nod o symleiddio'r modd y dehonglir deddfwriaeth sy'n gymwys yng Nghymru mewn meysydd sydd wedi'u datganoli. O ganlyniad, ystyriai'r ymatebydd hwn fod pwerau Cynulliad Cymru i ailddatgan y gyfraith, hyd yn oed mewn perthynas â materion a gedwir yn ôl, yn golygu y gallai ailddatgan Deddf 1978 (yn ddwyieithog) er mwyn gallu cymhwyso'n ôl-weithredol.

**Cwestiwn 4:** A ydych yn cytuno â'r dull gweithredu yn adran 3(3) o'r Bil Drafft, sy'n datgymhwyso rheol arbennig os yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall?

34. O'r deg ymateb a gafwyd i'r cwestiwn hwn, cytunai'r mwyafrif â'r dull a fabwysiadwyd yn adran 3(3) o'r Bil Drafft, ond roedd Dr Huws o'r farn bod y dull hwnnw o bosibl yn gwneud y gyfraith yn fwy cymhleth.
35. Cafwyd sylwadau gan Gymdeithas Cyfreithwyr Cymry Llundain fod y ddarpariaeth hon yn fwy cul o ran ei dull na'r ddarpariaeth gyfatebol yn Neddf 1978 ac ystyrient, ynghyd â Huw Williams a Clare Hardy, y byddai hyn yn rhoi mwy o sicrwydd.
36. Awgrymodd Cyngor Trydydd Sector Caerdydd y gellid o bosibl mabwysiadu geiriad safonol wrth ddrafftio yn y dyfodol pan na ddylai rheol yn Rhan 2 o'r Bil gael ei chymhwyso.

37. Yn ôl Cymdeithas Ddysgedig Cymru, roedd adran 3(3)(b) yn peri problemau yng nghyd-destun hygyrchedd. Fodd bynnag, roedd aelodau'r Gymdeithas hefyd o'r farn y gellid ei chyfiawnhau fel "*a necessary insurance against an overly mechanical approach to implementing interpretation provisions*". Ystyriai Keith Bush CF hefyd fod y dull hwn yn "*amddiffynfa angenrheidiol rhag canlyniadau damweiniol nas rhagwelwyd*".

### **Barn am reolau a darpariaethau penodol yn Rhan 2 o'r Bil Drafft**

*Adran 5 (Diffiniadau o eiriau ac ymadroddion) ac Atodlen 1 (Diffiniadau o eiriau ac ymadroddion)*

38. Mae adran 5 o'r Bil Drafft yn darparu bod gan y geiriau a'r ymadroddion a nodir yn Atodlen 1, y mae'n ei chyflwyno, yr ystyr a roddir yn yr Atodlen honno os cânt eu defnyddio yn Neddfau'r Cynulliad ac is-offerynnau Cymreig y mae Rhan 2 o'r Bil Drafft yn gymwys iddynt.
39. Gofynnwyd cwestiynau penodol ynglŷn â dull gweithredu Llywodraeth Cymru yng nghwestiynau 5 a 6 y ddogfen ymgynghori.

**Cwestiwn 5:** A ydych yn credu y dylai "Cymru" gael ei diffinio trwy gyfeirio ar ardaloedd awdurdodau lleol Cymru, neu drwy ryw ddull arall?

40. Rhoddodd y rheini a ddarparodd sylwadau ar y cwestiwn hwn amrywiol safbwyntiau am sut y gellid, neu y dylid, diffinio "Cymru" mewn cyfraith.
41. Dywedwyd yn ymateb Cymdeithas Cyfreithwyr Cymry Llundain y dylid ceisio mabwysiadu dull cyson wrth ddiffinio "Cymru" ac, yn fwy na hynny, na ddylid newid mewn unrhyw fodd y diffiniad y darperir ar ei gyfer yn adran 158(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.
42. Roedd aelodau Cymdeithas Ddysgedig Cymru a Keith Bush CF yn meddwl y gallai cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol gyfyngu ar y modd y diffinnir "Cymru".
43. Awgrymwyd gan Capital Law y dylid bod yn gyson â'r modd y diffinnir "Lloegr" o dan Ddeddf 1978. Roeddynt hefyd o'r farn y gallai'r diffiniad yn y Bil Drafft achosi dryswch ac awgrymwyd, er mwyn helpu i sicrhau hygyrchedd y gyfraith yn benodol, y gellid gwneud darpariaeth ar gyfer diffiniad glân a newydd sy'n cynnwys yr elfennau "awdurdod lleol" a "ffin forol" o'r diffiniad presennol o "Gymru". Yn yr un modd, credai aelodau Cyngor y Trydydd Sector Caerdydd y gallai'r diffiniad gynnwys dyfroedd arfordirol yn ogystal ag ardaloedd ar y tir.

44. Nid oedd Trevor Coxon na Huw Williams a Clare Hardy o'r farn y dylid parhau i ddiffinio "Cymru" yn ôl y gyfraith drwy gyfeirio at ei hardaloedd awdurdodau lleol. Aeth Huw Williams a Clare Hardy yn eu blaenau i awgrymu dull o ddiffinio "Cymru" drwy fap swyddogol.

**Cwestiwn 6:** A oes gennych unrhyw sylwadau am yr hyn sydd wedi'i gynnwys, neu sydd heb ei gynnwys yn Atodlen 1 i'r Bil Drafft?

45. Cafwyd deg ymateb i'r cwestiwn hwn, ac roedd consensws cyffredinol y dylid cynnwys yr Atodlen yn y Bil Drafft.
46. Ym marn Dr Huws, dylai Atodlen 1 ganolbwyntio ar dermau sydd ag iddynt wahanol ystyron yng Nghymru a Lloegr. Teimlai ymatebydd arall y dylid ystyried cynnwys termau penodol a ddiffiniwyd yn Neddf Dehongli a Diwygio Deddfwriaethol (yr Alban) 2010.
47. Awgrymodd Trevor Coxon y dylid ystyried diffinio "cyngor cymuned", a dywedodd ymatebwyr eraill y dylid rhoi eglurder pellach ynglŷn ag ystyr "Gweinidogion Cymru". Cwestiynodd rhai ohonynt hefyd y sail resymegol dros beidio â chynnwys diffiniad o "Gomisiynydd y Gymraeg", a thros hepgor "rheoliadau adeiladu", "cychwyn", "deddfu" a "chofrestredig".
48. Nid oedd aelodau Cymdeithas Cyfreithwyr Cymry Llundain yn cytuno â'r diffiniad arfaethedig o "flwyddyn ariannol" o ystyried bod busnesau yn amrywio diwedd eu blwyddyn ariannol. Awgrymasant yn hytrach y dylid ychwanegu cymal at y diffiniad cyfredol yn dweud "oni bai bod y cyd-destun yn awgrymu fel arall". Roeddynt hefyd o'r farn bod y diffiniad o "ysgrifennu" yn rhy gul a chyflwynwyd awgrymiadau am newidiadau i'r ffordd y drafftwyd rhai diffiniadau eraill ganddynt hefyd.
49. Croesawodd Comisiynydd y Gymraeg y ffaith fod Atodlen 1 yn gwneud darpariaeth ar gyfer diffiniadau Cymraeg o eiriau. Roedd y Comisiynydd yn deall amcan Llywodraeth Cymru *"i gyfyngu'r termau a ddiffinnir i'r rhai mwyaf defnyddiol neu hanfodol yn unig"*, ond nid oedd y meini prawf ar gyfer cynnwys geiriau ac ymadroddion yn glir ym marn y Comisiynydd.
50. Cyfeiriwyd yn ymateb Cymdeithas Ddysgedig Cymru at yr egwyddorion a amlinellwyd gan ddraftiwr seneddol swyddogol cyntaf y DU, yr Arglwydd Thring<sup>6</sup>. Roeddynt yn ystyried ei bod hi'n ymddangos bod Atodlen 1 yn bodloni

<sup>6</sup> Sef: *"definitions should be used to indicate where a term included or excluded something where otherwise there would exist a doubt as to its inclusion or exclusion"*; na ddylai termau fod yn dermau diffiniedig *"with a scientific precision where their ordinary meaning was clear and exact"*; ac na ddylid rhoi ystyron i dermau *"which were at variance with their ordinary usage"*.

egwyddorion Thring ac y dylid parhau i ddilyn yr egwyddorion hyn wrth ychwanegu termau eraill i'r Atodlen. Awgrymodd Huw Williams a Clare Hardy hefyd: *“a consistent approach should be applied as to whether or not particular types of references will be included”*.

*Adran 7 (Nid yw geiriau sy'n dynodi rhywedd yn gyfyngedig i'r rhywedd hwnnw)*

**Cwestiwn 7:** A ydych yn cytuno â'r dull gweithredu yn adran 7 o'r Bil Drafft?

51. Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn dangos bod rhanddeiliaid yn cefnogi dull o ddrafftio deddfwriaeth sy'n niwtral o ran rhywedd.
52. Dywedodd Trevor Coxon fod yr agwedd at ddiffinio rhywedd yn y ddarpariaeth hon yn synhwyrol. Roedd Cyngor y Trydydd Sector Caerdydd o'r farn bod y defnydd o iaith niwtral o ran rhywedd yn gynhwysol, ac yn ôl y sylwadau a gafwyd gan Gymdeithas Ddysgedig Cymru, mae'n *“neatly sidesteps any issues about gender preference and the like”*. Dywedwyd yn ymateb Capital Law eu bod yn disgwyl i ddeddfwriaeth y Cynulliad fod yn niwtral o ran rhywedd yn y dyfodol.
53. Awgrymodd Cymdeithas Cyfreithwyr Cymry Llundain a Huw Williams a Clare Hardy welliannau drafftio i adran 7 o'r Bil Drafft. Cwestiynodd Comisiynydd y Gymraeg a ydy hi'n ddigon eglur, gan ystyried y modd y drafftwyd adran 7 ar hyn o bryd, fod cenedlenwau yn nodwedd o ramadeg y Gymraeg sy'n golygu yr ymdrinnir â geiriau naill ai fel rhai gwrywaidd neu fenywaidd, ac nad oes a wnelo hyn â rhywedd unigolion. Croesawodd eglurhad pellach o hyn. Roedd ymatebydd arall hefyd o'r farn y dylid ei gwneud yn gwbl glir nad yw cenedlenw gair Cymraeg yn cyfeirio at rywedd person.

*Adran 8 (Amrywio geiriau ac ymadroddion oherwydd gramadeg etc.)*

**Cwestiwn 8:** A ydych yn cytuno â'r dull gweithredu arfaethedig a ddefnyddir yn adran 8 o'r Bil Drafft?

54. Cafwyd consensws cyffredinol o blaid y dull gweithredu arfaethedig yn adran 8 o'r Bil Drafft, nad oes iddi adran gyfatebol yn Neddf 1978. Er eu bod yn cefnogi egwyddor y ddarpariaeth, mynegwyd rhai pryderon gan amryw o'r ymatebwyr, er enghraifft:
  - a. gofynnwyd a ydy adran 8 o'r Bil Drafft ac adran 156 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn cyfateb, a sut y maent yn cyfateb;

- b. gan fod adran 8 i fod i gynnwys amrywiadau gofynnol yn sgil treigladau yn y Gymraeg, dywedwyd y dylid cyfeirio'n benodol at "*treigladau*", o leiaf yn nhestun Cymraeg y Bil Drafft;
- c. dywedwyd hefyd fod achosion yn debygol o godi o hyd pan fyddai angen i ddrafftwy'r fabwysiadu agwedd fwy traddodiadol.

55. Roedd Comisiynydd y Gymraeg yn croesawu'r "*...dull gweithredu arfaethedig hwn gan ei fod yn cydnabod yr amrywiadau ar eiriau Cymraeg (megis treigladau) a bydd felly'n hwyluso drafftio a dehongli yn y Gymraeg*".

*Adran 9 (Cyfeiriadau at gyfnodau o amser)*

**Cwestiwn 9:** A ydych yn cytuno â'r ffaith fod adran 9 wedi'i chynnwys yn y Bil Drafft?

- 56. O'r wyth ymatebydd i'r cwestiwn hwn, roedd pedwar yn cefnogi cynnwys adran 9. Anghytunai dau ymatebydd â'r cynnig. Credai un ohonynt y byddai'n fwy priodol cynnwys darpariaeth bendant yn y Ddeddf benodol pan fo angen disgrifio cyfnodau o amser. Roedd yr ymatebydd arall o'r farn y gallai rhywun wneud camsyniad pe byddai'r diwrnod y mae'r cyfnod yn dechrau yn cael ei gynnwys wrth ddisgrifio cyfnod o amser, ac y gallai hyn arwain at anghyfiawnder.
- 57. Roedd un ymatebydd yn meddwl y byddai'n fuddiol cael y ddarpariaeth fel trefniant wrth gefn. Awgrymodd hefyd, fel yn achos rheolau tebyg eraill, er enghraifft y Rheolau Trefniadaeth Sifil, y gallai fod yn ddefnyddiol paratoi darlun i gyd-fynd â darpariaeth y Bil Drafft i egluro'n fras sut y byddai'n cael ei rhoi ar waith.

*Cyflwyno dogfennau drwy'r post neu'n electronig*

58. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys cynigion ar gyfer cyflwyno dogfennau yn adrannau 13 a 14 o'r Bil Drafft. Mae'r adrannau hyn – yn wahanol i'r ddarpariaeth gyfatebol yn Neddf 1978 – hefyd yn darparu fel bod modd cyflwyno dogfennau drwy ddefnyddio dulliau cyfathrebu electronig.

**Cwestiwn 10:** A ydych yn cytuno â'r dull gweithredu a ddefnyddir ynghylch cyflwyno dogfennau yn adran 13 o'r Bil Drafft?

**Cwestiwn 11:** A ydych yn cytuno â'r dull gweithredu arfaethedig ynghylch cyflwyno tybiedig (yn adran 14 o'r Bil Drafft) neu a ydych yn credu bod dewis amgen ymarferol mwy manwl-gywir?

59. Amrywai farn y rheini a ymatebodd i'r cwestiynau hyn, ac roedd y gwahaniaeth barn hwn yn amlwg hefyd yn y digwyddiadau ymgynghori a gynhaliwyd.
60. Er enghraifft, roedd Keith Bush CF yn anghytuno â'r dull gweithredu a ddefnyddir yn adran 13 a dywedodd y dylid gwneud darpariaeth ar gyfer cyflwyno mewn person, drwy'r post neu'r e-bost cyn gosod gwahanol reolau ar gyfer pryd yr ystyrir bod dogfen wedi cael ei derbyn.
61. Cododd amryw o ymatebwyr bryderon ynglŷn â'r ddarpariaeth ar gyfer cyflwyno tybiedig, gan gynnwys drwy ddulliau electronig. Roedd eu hamheuron yn cynnwys: y ffaith fod gwasanaeth y rhyngwyd yn annibynadwy a bod cwmpas gwasanaeth/mynediad at wasanaeth yn isel mewn ardaloedd penodol o Gymru; y perygl o hacio; cyfyngiadau diogelwch; cyfyngiadau ar faint dogfennau; ac ystyriaethau ynghylch pa mor aml y caiff blychau e-bost eu monitro yn gyffredinol. O ganlyniad, credai Cymdeithas Cyfreithwyr Cymry Llundain mai dim ond os cyflwynir drwy'r post hefyd y dylid defnyddio dulliau cyflwyno electronig. Yr un fyddai'r dyddiad cyflwyno tybiedig â'r dyddiad cyflwyno drwy'r post felly.
62. Awgrymodd amryw o ymatebwyr fod angen rhagor o eglurder mewn perthynas â'r ddwy ddarpariaeth. O ran cyflwyno dogfennau, er enghraifft, awgrymwyd bod angen sicrhau bod y ddarpariaeth yn addas at y dyfodol er mwyn gallu bodloni unrhyw ddatblygiadau technolegol. Dylid ystyried felly cymryd pŵer i alluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth debyg mewn perthynas â dulliau cyfathrebu eraill. Awgrymwyd yn ymateb Capital Law hefyd y dylid fod yn eglur yn y ddarpariaeth mai'r anfonwr fydd yn ysgwyddo'r baich profi at ddibenion sicrhau bod y gwasanaeth yn bodloni'r meini prawf perthnasol.
63. Ystyriodd Dr Huws mai mewn Deddfau penodol lle y bo cyflwyno dogfennau yn berthnasol y dylid ymdrin â'r materion hyn, yn hytrach na gwneud darpariaeth yn y Bil Drafft.



*Adran 16 (Arfer pŵer sydd eto i ddod i rym neu gyflawni dyletswydd nad yw eto mewn grym)*

**Cwestiwn 12:** A ydych yn cytuno â'r dull gweithredu a ddefnyddir yn adran 16 o'r Bil Drafft?

64. Ymateb cymysg a gafwyd i'r cynnig hwn. Ystyriai un ymatebydd, gan fod darpariaethau cychwyn a gorchmynion cychwyn yn awr yn darparu'n gyson ar gyfer cychwyn darpariaethau perthnasol at ddibenion paratoadol, nad oes angen y ddarpariaeth yn adran 16.
65. Cymharodd Cymdeithas Cyfreithwyr Cymry Llundain adran 16 â'i darpariaeth gyfatebol (adran 13) yn Neddf 1978 a dweud bod y ddarpariaeth yn y Bil Drafft yn rhoi mwy o eglurder. Roedd aelodau'r Gymdeithas o'r farn hefyd y gellid ystyried a ddylid cynnwys dyletswyddau yng nghwmpas adran 16. Cafodd yr eglurder a roddir yn awr gan yr adran hon ei gymeradwyo gan Capital Law hefyd.

*Adran 18 (Dirymu, diwygio ac ailddeddfu is-ddeddfwriaeth)*

66. Mae adran 18 o'r Bil Drafft yn cyfateb i adran 14 o Ddeddf 1978. Fodd bynnag, mae rhai gwahaniaethau sydd wedi'u nodi yn y ddogfen ymgynghori ym mharagraffau 135 i 140 (tudalennau 43 a 44).

**Cwestiwn 13:** A ydych yn cytuno â chynnwys dyletswyddau yn adran 18 o'r Bil Drafft?

67. Ymhlith y saith o ymatebion i'r cwestiwn hwn, roedd cefnogaeth gyffredinol i'r dull gweithredu a ddefnyddiwyd. Teimlai Dr Huws y gallai fod angen ehangu'r ddarpariaeth i ganiatáu i berson neu gorff sydd wedi etifeddu pwerau oddi wrth berson neu gorff arall ddiddymu neu ddiwygio deddfwriaeth gan y cyrff hynny.
68. Awgrymodd aelodau Cymdeithas Cyfreithwyr Cymry Llundain y byddai'n weddol debygol y byddai adran 18(1) o'r Bil Drafft yn gymwys i ddyletswydd i wneud is-ddeddfwriaeth, hyd yn oed os na fyddai'n crybwyll 'dyletswyddau' yn benodol. Er gwaethaf hyn, cefnogai ymateb y Gymdeithas gynnwys y gair 'dyletswyddau' er eglurder. Credai aelodau'r Gymdeithas hefyd y gellid drafftio geiriad adran 18(1) yn fwy eglur.

*Adran 19 (Diwygio is-ddeddfwriaeth gan Ddeddf gan y Cynulliad)*

69. Nid oes unrhyw adran gyfatebol i'r adran hon yn Neddf 1978 ond cafodd ei dylanwadu gan gymal 4 o'r Bil Deddfwriaeth sydd gerbron Senedd Seland Newydd ar hyn o bryd. Diben adran 19 yw mynd i'r afael â mater sy'n codi pan fydd Deddf y Cynulliad yn diwygio neu'n ddirymu is-ddeddfwriaeth.

**Cwestiwn 14:** A ydych yn cytuno â'r ffaith fod adran 19 wedi'i chynnwys yn y Bil Drafft?

70. Roedd y rhan fwyaf o'r wyth a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn cytuno â chynnwys adran 19. Awgrymodd un unigolyn efallai fod yr adran hon wedi'i drafftio'n rhy eang, a chrosawodd ymatebydd arall yr eglurder yr oedd adran 19 yn ei gynnig.

*Adran 20 (Amrywio cyfarwyddydau a'u tynnu'n ôl)*

71. Nid oes unrhyw adran gyfatebol i'r adran hon yn Neddf 1978, ond mae iddi ddau ddiben: cael gwared ar unrhyw amheuaeth fod modd amrywio cyfarwyddydau, neu eu tynnu yn ôl, a dileu'r angen i ddatgan hyn yn benodol bob tro y llunnir pŵer neu ddyletswydd rhoi cyfarwyddydau.

**Cwestiwn 15:** A ydych yn cytuno â'r ffaith fod adran 20 wedi'i chynnwys yn y Bil Drafft?

72. Yn gyffredinol, roedd y chwe ymatebydd i'r cwestiwn hwn yn cefnogi cynnwys adran 20. Er bod aelodau Cymdeithas Cyfreithwyr Cymry Llundain yn cytuno y dylid ei chynnwys, roeddynt hefyd yn awyddus i ddweud na ddylid cynnwys unrhyw ddarpariaethau eraill ar bwerau a dyletswyddau rhoi cyfarwyddydau. Gofynnwyd yn ymateb Capital Law a oedd angen darpariaeth o'r fath, gan awgrymu mai dim ond pe byddai achosion yn codi lle byddai darn o deddfwriaeth yn atal yn benodol amrywio, amnewid neu dynnu'n ôl unrhyw gyfarwyddydau a wneir oddi tani y byddai ei hangen. Dywedont hefyd y byddai gwerth cynnwys yr adran os gwneir hynny i leihau'r tebygolrwydd o ddarpariaeth ddiangen yn y dyfodol.

*Adran 22 (Mae cyfeiriadau at ddeddfwriaeth yn gyfeiriadau at ddeddfwriaeth fel y'i diwygiwyd)*

**Cwestiwn 16:** A ydych yn cytuno â'r dull gweithredu a ddefnyddir yn adran 22 o'r Bil Drafft?

73. Roedd saith o'r naw a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn cytuno â'r dull gweithredu a ddefnyddir yn adran 22.
74. Nid oedd Dr Huws yn cytuno â'r ddarpariaeth ac awgrymodd *"dyw hyn ddim bob amser yn gywir"* a nodi hefyd *"nid yw'n sefyllfa ddeddfwriaethol gwahanol i'r hyn a geir yn Lloegr"*.
75. I'r gwrthwyneb, roedd aelodau Cymdeithas Cyfreithwyr Cymry Llundain yn cytuno'n gryf â'r dull gweithredu a soniodd amryw o'r ymatebwyr eraill am yr eglurder yr oedd y ddarpariaeth yn ei darparu. Er bod Capital Law yn awgrymu y gellid bod angen addasu adran 22 rywfaint eto, roeddynt o'r farn bod y ddarpariaeth hon wedi'i drafftio'n fwy eglur na'i darpariaeth gyfatebol yn Neddf 1978 a Deddf Dehongli a Diwygio Deddfwriaethol (yr Alban) 2010.

*Adran 26 (Troseddau dyblyg)*

**Cwestiwn 17:** A ydych yn credu y dylai'r Bil Drafft wneud darpariaeth ynghylch dyblygu troseddau (adran 26), neu a ddylem ddilyn y dull gweithredu a ddefnyddir yn yr Alban a gadael hwn fel mater yr ymdrinnir ag ef yn Neddf 1978?

76. Cafwyd pump ymateb i'r cwestiwn hwn. Ychydig iawn o gefnogaeth oedd ymhlith yr ymatebwyr hynny i'r ddarpariaeth hon. Er enghraifft, awgrymodd Dr Huws fod angen cysondeb â chyfreithiau'r Alban a Lloegr ar y mater hwn, er mwyn osgoi dryswch. Cydnabu Huw Williams a Clare Hardy farn Llywodraeth Cymru ynghylch pwysigrwydd rheol sy'n sicrhau mai dim ond unwaith y gellir cosbi person am yr un drosedd.

*Adran 27 (Cymhwyso Deddfau gan y Cynulliad ac is-offerynnau Cymreig i'r Goron)*

**Cwestiwn 18:** A ddylai'r Bil Drafft wneud darpariaeth ynghylch deddfau sy'n rhwymo'r Goron (adran 27), neu a ddylid mynd i'r afael â hyn mewn ffordd arall?

77. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn yn cefnogi'r ddarpariaeth yn adran 27 oherwydd byddai'n dod â'r eglurder a'r sicrwydd sydd eu dirfawr angen wrth bennu pa ddeddfwriaeth sy'n rhwymo'r Goron.

78. Dywedodd Huw Williams a Clare Hardy y dylai darnau unigol o ddeddfwriaeth barhau i ddatgan yn benodol fel mater o bolisi a ydynt yn rhwymo'r Goron ai peidio. Roeddynt yn ystyried bod adran 27 yn drefniant wrth gefn defnyddiol pan fo amwysedd o unrhyw fath.
79. Dywedodd aelodau Cymdeithas Cyfreithwyr Cymry Llundain fod gwrth-droi'r rhagdybiaethau fel hyn yn fanteisiol er mwyn sicrhau cysondeb ac eglurder, fel y cymeradwywyd gan yr Arglwyddes Hale yn *R (on the application of Black) v Secretary of State for Justice [2017] UKSC 81*. Roedd Trevor Coxon yn gefnogol iawn i ddarpariaeth o'r fath a dywedodd "*for far too long the Crown has used uncertainty to shuffle out of its legal responsibilities*". Cydnabu ymatebwyr yr anawsterau a nodwyd yn y ddogfen ymgynghori mewn perthynas â'r dull gweithredu hwn. Fodd bynnag, roeddynt yn dal i ystyried y byddai adran 27 yn welliant sylweddol ar weithredu rheol y gyfraith gyffredin fel y gwneir ar hyn o bryd, nad oedd yn foddhaol ym marn yr ymatebwyr.

*Adran 30 (Gorchmynion a rheoliadau sy'n dwyn deddfwriaeth i rym)*

**Cwestiwn 19:** A ydych yn cytuno â'r dull gweithredu a ddefnyddir yn adran 30 o'r Bil Drafft?

80. Roedd wyth o'r naw a ymatebodd yn cefnogi'r cynnig hwn. Yn ôl yr ymatebwyr, byddai'r ddarpariaeth yn sicrhau cysondeb ar draws Deddfau a theimlwyd ei bod yn ychwanegiad annadleuol, ymarferol a synhwyrol, a fyddai'n byrhau ac yn symleiddio Deddfau'r Cynulliad yn y dyfodol. Dywedwyd yn ymateb Capital Law fod y dull gweithredu "*in line with the [Draft Bill's] purpose of making the law more accessible*".

*Adran 35(2)(a) (Diddymu, dirymu neu ailddeddfu deddfwriaeth))*

**Cwestiwn 20:** A ydych yn credu bod adran 35(2)(a) o'r Bil Drafft yn adlewyrchiad cywir o'r ddarpariaeth yn y gyfraith gyffredin?

81. Roedd y mwyafrif o'r saith ymatebydd i'r cwestiwn hwn yn cytuno bod adran 35(2)(a) yn rhoi adlewyrchiad cywir o'r sefyllfa o ran y gyfraith gyffredin.
82. Nododd Capital Law nad oes unrhyw ddarpariaeth gyfatebol yn Neddf 1978 nac yn Neddf ddehongli'r Alban, a theimlent fod darpariaeth o'r fath wedi'i chynnwys er mwyn "*present existing legal principles formally and in the medium of Welsh in order to improve accessibly*".

83. Fodd bynnag, ystyriai Keith Bush CF fod is-adrannau 35(2)(a)(i) a (ii) yn mynd y tu hwnt i'r penderfyniad yn *Moakes v Blackwell Colliery Company [1925] 2 KB 64* ac felly nid oedd yn cytuno y dylid eu cynnwys.

*Adran 33 (Ailddeddfu)*

**Cwestiwn 21:** A ydych yn cytuno â'r dull gweithredu a ddefnyddir yn adran 33 o'r Bil Drafft?

84. Cafwyd saith o ymatebion i'r cwestiwn hwn, ac roedd chwech ohonynt yn cefnogi'r cynnig. Awgrymodd un ymatebydd y byddai hwn yn arf pwysig i gefnogi'r broses o gydgrynhoi deddfwriaeth, ac ystyriai hefyd fod adran 33 yn drefniant wrth gefn defnyddiol felly croesawodd ei chynnwys.

*Adran 34 (Cyfeirio at Ddeddf gan y Cynulliad yn ôl ei henw byr ar ôl iddi gael ei diddymu)*

85. Er mai enwau byr sydd dan sylw yn adran 34, eglurwyd beth yw rôl enwau byr ac enwau hir yn y ddogfen ymgynghori.

**Cwestiwn 22:** A ddylid ailystyried y defnydd parhaus o enwau hir wrth ddrafftio Biliau?

86. Roedd consensws cyffredinol ymhlith y rheini a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn erbyn parhau i ddefnyddio enwau hir, er bod rhai yn meddwl y gallent fod yn ddefnyddiol ynghyd â throsolwg neu ddarpariaethau ar ddibenion.

## Pennod 4 – Materion eraill a godwyd wrth ymgynghori

---

87. Roedd Rhan 3 y ddogfen ymgynghori yn ceisio barn am ystyriaeth Llywodraeth Cymru o faterion eraill y gellid bod angen ymdrin â hwy mewn deddfwriaeth yn y dyfodol.

**Cwestiwn 23:** A oes gennych farn am y materion eraill y gellid ymdrin â hwy drwy ddeddfwriaeth yn y dyfodol (fel y nodir yn Rhan 3 o'r Papur Ymgynghori)?

### *Enwau cwrteisi*

88. Rhybuddiodd aelodau Cymdeithas Ddysgedig Cymru (gan gyfeirio at egwyddorion yr Arglwydd Thring – gweler uchod) yn erbyn rhoi ystyron i dermau sy'n wahanol i'w defnydd arferol, y teimlent a allai ddigwydd pan ddiffinnir gair yn unol ag ystyr gair mewn iaith arall.
89. Roedd amryw o'r ymatebwyr yn cefnogi'r defnydd o gyfieithiadau Cymraeg o deitlau ac enwau cyrff nad oes iddynt enwau Cymraeg mewn deddfwriaeth Saesneg yn unig. Cefnogai aelodau Cyngor y Trydydd Sector Caerdydd hyn, ond dywedont hefyd fod angen sicrhau na fyddai'r dull hwn yn camarwain darllenwyr deddfwriaeth. Awgrymodd Keith Bush CF y gellid osgoi camddealltwriaeth drwy fabwysiadu'r arfer a amlinellir ym mharagraff 229 o'r ddogfen ymgynghori, ond credai y dylid cynnwys hefyd ddarpariaeth eglurhaol yn y Bil. Dywedodd aelodau Cymdeithas Ddysgedig Cymru y dylid ystyried cymryd pŵer i Weinidogion Cymru ddarparu enwau o'r fath. Yn ôl Huw Williams a Clare Hardy, y dull mwyaf syml a gonest fyddai defnyddio'r enw Saesneg a rhoi'r enw cwrteisi Cymraeg mewn cromfachau. Sicrhau cysondeb oedd yn allweddol ym marn Comisiynydd y Gymraeg, a dywedodd hefyd y byddai'n ddefnyddiol darparu canllaw cyhoeddus.

### *Safoni termau deddfwriaethol*

90. Gan gyfeirio at ddulliau mewn awdurdodaethau dwyieithog fel Canada, awgrymwyd yn ymateb Capital Law y gellid dysgu gwersi, er enghraifft drwy gael corff cenedlaethol ar gyfer safoni terminoleg gyfreithiol a drafftio ar y cyd. Awgrymodd aelodau Cymdeithas Ddysgedig Cymru, er mwyn osgoi a goresgyn unrhyw amrywiadau ac anghysondeb yn y termau cyfreithiol a ddefnyddir, y gellid dilyn dull tebyg i'r un a grybwyllwyd eisoes mewn perthynas ag enwau cwrteisi wrth safoni terminoleg ddeddfwriaethol yn y Gymraeg.

### *Deddf Llywodraeth Cymru 2006*

91. Cydnabu Comisiynydd y Gymraeg yr anawsterau a amlinellwyd yn y ddogfen ymgynghori, ond credai er gwaethaf hynny fod gwerth ailddatgan adran 156 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn y Bil oherwydd ei bod "*yn cyd-fynd yn naturiol â natur y Bil a byddai'n tanlinellu pwysigrwydd cydraddoldeb y testunau*". Ystyriai'r Comisiynydd hefyd fod angen mynd i'r afael yn brydlon â'r diffyg fersiynau cyfredol o destunau Cymraeg deddfwriaeth ar wefan [legislation.gov.uk](http://legislation.gov.uk) er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ag adran 156.
92. Roedd Keith Bush CF o'r farn na fyddai'n briodol ailddatgan y darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006. Dywedodd ef mai mater cyfansoddiadol yw statws fersiynau Cymraeg a Saesneg deddfwriaeth a wnaed gan y Cynulliad, nid cwestiwn (yn unig) o sut i ddehongli deddfwriaeth.

### **Materion eraill a godwyd wrth ymgynghori**

93. Gwahoddwyd sylwadau gan Lywodraeth Cymru hefyd ar unrhyw faterion cysylltiedig â'r ymgynghoriad, nad oeddynt wedi cael eu hystyried yn benodol eisoes. Mynegodd rhai o'r ymatebwyr farn bellach am gydgrynhoi a chodeiddio deddfwriaeth, a soniodd eraill am gyhoeddi a dehongli testunau.

### *Codeiddio Cyfraith Cymru*

94. Rhannodd rhai ymatebwyr sylwadau ynghylch meysydd o'r gyfraith y byddai'n fuddiol ystyried eu cynnwys yn y rhaglen ar gyfer cydgrynhoi a chodeiddio deddfwriaeth ar gam cynnar yn y broses. Er enghraifft, dymunai Cymdeithas Cyfreithwyr Cymry Llundain weld sylw yn cael ei roi yn gyntaf i gyfraith cynllunio, addysg a landlordiaid a thenantiaid, cyn mynd ati i baratoi codau ar gyfer cyfraith gwasanaethau cymdeithasol, gwastraff a'r amgylchedd a llywodraeth leol. Roedd Trevor Coxon o blaid rhoi blaenoriaeth i gyfraith llywodraeth leol.
95. Tynnodd Cyngor y Trydydd Sector Caerdydd sylw at bwysigrwydd sicrhau bod iechyd a gofal cymdeithasol yn rhan o un cod yn hytrach na dau god ar wahân.
96. Roedd cynnwys y gyfraith a fyddai'n cael ei rhoi mewn Codau yn cael ei drafod mewn rhai ymatebion. Er enghraifft, roedd Trevor Coxon yn dymuno cael eglurhad a fyddai cyfreithiau sy'n cael eu gwneud gan gyrff cyhoeddus fel awdurdodau lleol (gorchmynion, is-ddeddfau ac ati) yn cael eu cynnwys mewn Codau. Cafwyd sylwadau gan ymatebwyr eraill ynghylch cynnwys, neu beidio, y gyfraith gyffredin mewn Codau.

### *Adnoddau i gyflwyno'r rhaglen*

97. Dywedodd Grŵp Ymchwil ar Gyfraith Gyhoeddus Ysgol y Gyfraith Bangor fod cyfle i weithio gydag amrywiol ymchwilwyr yng Nghymru i wella hygyrchedd, a dulliau ar gyfer codeiddio a chydgrynhoi'r gyfraith.
98. Codwyd pryderon gan aelodau Cymdeithas y Cyfreithwyr ynglŷn â'r adnoddau a'r gallu i gyflwyno rhaglen i wella hygyrchedd cyfraith Cymru i fodloni amserlen resymol. Y rhesymau a roddwyd dros y pryderon hyn oedd y ffaith mai dim ond 60 o aelodau sydd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a hyd a lled y ddeddfwriaeth yn ymwneud ag ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd a fydd yn debygol o fod yn destun gweithdrefn graffu'r Cynulliad Cenedlaethol.
99. Hyrwyddwyd y defnydd o Safonau ISO gan Richard Ebley fwy nag unwaith. Dywedodd ef fod angen newid effeithiol yn y sector cyhoeddus drwy reoli da, a fyddai'n galw am achrediad annibynnol o drefniadau rheoli.

### *Cyhoeddi*

100. Mynegwyd pryderon yn ymateb Capital Law ynglŷn â sicrhau bod plattform digidol ar gael i'r cyhoedd, a hwnnw'n un hyfyw, sy'n unioni diffygion gwefannau fel [legislation.gov.uk](http://legislation.gov.uk) – a sut y byddai plattform o'r fath yn cyd-fynd â'r darparwyr (drwy danysgrifiad yn unig) presennol. Awgrymodd Cymdeithas Ddysgedig Cymru y dylid bod yn bwylllog er mwyn sicrhau nad yw penderfyniadau sy'n cael eu gwneud heddiw ar gyfer gwella mynediad yn rhwystr i newidiadau anorfod pellach, a fydd yn digwydd maes o law, nac yn eu cymhlethu.
101. Croesawodd Comisiynydd y Gymraeg asesiad parhaus Llywodraeth Cymru o sut y gellid defnyddio datblygiadau technolegol i hwyluso mynediad at gyfraith Cymru. Tynnodd sylw at bwysigrwydd sicrhau bod y Gymraeg yn cael ystyriaeth ddyledus yn ystod y gwaith datblygu.

### *Dehongli*

102. Gofynnodd dau ymatebydd am eglurder ynghylch y berthynas rhwng y fersiynau Cymraeg a Saesneg o destunau wrth ddehongli deddfwriaeth. Awgrymodd Dr Huws y dylid darparu ar gyfer darpariaeth ddehongli sy'n berthnasol i Ddeddfau penodol yn y Deddfau unigol hynny.



## Pennod 5 – Asesiadau o effaith a'r Gymraeg

---

103. Fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Bil Drafft, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru hefyd ar yr asesiadau o effaith a oedd wedi cael eu datblygu wrth baratoi'r Bil. Gofynnwyd am farn am yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol Drafft ac asesiad Llywodraeth Cymru o'r effaith ar y Gymraeg, Hawliau Plant a Chydraddoldeb a Hawliau Dynol.
104. At hynny, roedd cwestiynau 26 a 27 yn gofyn i ymatebwyr ystyried effaith cynigion y Bil Drafft ar y Gymraeg.

**Cwestiwn 24:** A oes gennych unrhyw sylwadau ar yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol Drafft ar gyfer y Bil Drafft?

**Cwestiwn 25:** A oes gennych unrhyw sylwadau ar yr asesiadau effaith drafft ar gyfer y Gymraeg, Hawliau Plant, neu Gydraddoldeb a Hawliau Dynol?

105. O'r pedwar ymateb i'r cwestiynau hyn, un sylw cadarn yn unig a ddaeth i law. Dywedodd Dr Huws y dylid ystyried y materion dehongli hynny sy'n unigryw i ddeddfwriaeth Gymraeg, er enghraifft fod angen datrys unrhyw anghysondeb o ran ystyr rhwng fersiynau Gymraeg a Saesneg deddfwriaeth.

**Cwestiwn 26:** Hoffem wybod eich barn am yr effaith y byddai datblygu'r Bil Drafft yn ei chael ar y Gymraeg, yn enwedig mewn perthynas â:

- i) helpu pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, a
- ii) trin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg.

Pa effeithiau fyddai yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol a lleddfu effeithiau negyddol?

106. Cafwyd chwech ymateb i'r cwestiwn hwn ac roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn credu y byddai'r darpariaethau yn y Bil Drafft, yn enwedig Rhan 1, yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg. Teimlai'r ymatebwyr y byddai datblygu ymhellach gorff o gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru a wneir yn ddwyieithog, gan gynnwys drwy'r broses o godeiddio ac ailddatgan y gyfraith bresennol sy'n gymwys yng Nghymru a Lloegr, yn cryfhau statws cyfreithiol a phwysigrwydd y Gymraeg. Ym marn yr ymatebwyr hefyd, byddai hyn yn ei dro yn gwella'r defnydd o'r Gymraeg ac yn helpu i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

107. Canolbwyntiodd ymateb Cymdeithas Ddysgedig Cymru ar greu codau cyfraith Cymru yn ymwneud â meysydd penodol o gymhwysedd deddfwriaethol, gan ddweud y byddai hyn yn gwneud y gyfraith yn fwy hygyrch. Credai aelodau'r Gymdeithas hefyd y byddai angen i'r codau fod yn gynhwysfawr ac, i'r perwyl hwn, ystyrient mai cael cymhwysedd i ailddatgan y gyfraith ar faterion nad ydynt yn rhan o gymhwysedd ar hyn o bryd oedd y mater allweddol. Yn eu barn nhw, byddai ailddatgan fel hyn o gymorth i'r gyfraith yn y meysydd hynny sydd i'w datgan yn ddwyieithog.
108. Mynegwyd pryderon yn ymatebion Capital Law a Chymdeithas Ddysgedig Cymru ynghylch sut y byddai deddfwriaeth sy'n gymwys yng Nghymru, wedi iddi gael ei gwneud yn ddwyieithog, yn cael ei dehongli. Dywedodd Capital Law y bydd y darpariaethau dehongli yn Rhan 2 o'r Bil Drafft yn allweddol a gofynnodd sut y byddai unrhyw wrthdaro anfwriadol yn ystyr llythrennol fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg y deddfwriaeth yn cael ei oresgyn. Awgrymodd aelodau Cymdeithas Ddysgedig Cymru, o ganlyniad i ailddatgan (gweler uchod), byddai cwestiwn yn codi a ellid trin y ddau destun fel rhai ag iddynt statws cyfartal yn unol ag adran 156(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Teimlent y dylid mynd i'r afael â materion o'r fath cyn creu'r codau.

**Cwestiwn 27:** Esboniwch hefyd sut y gallai'r Bil Drafft gael ei llunio neu ei newid er mwyn cael:

- i) effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar drin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg, a
- ii) dim effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar drin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg.

109. Daeth pedwar ymateb i law ar gyfer y cwestiwn hwn, a soniodd rhai o'r ymatebwyr am y sylwadau a wnaed ganddynt fel ymateb i gwestiwn 26 neu gwestiynau eraill, ac ymhelaethu arnynt. Yn ogystal â'r sylwadau hyn:
- a. Awgrymodd Dr Huws y gallai'r Bil Drafft gyfeirio'n benodol, er enghraifft, at ystyr terminoleg ddwyieithog a gweithredu fel canllaw ar gyfer pennu ystyr drwy'r ddwy fersiwn neu egluro sut y dylid strwythuro'r deddfwriaeth
  - b. Dywedodd Keith Bush CF y byddai darpariaeth ddehongli gwbl ddwyieithog a chynhwysfawr, sy'n berthnasol i'r gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru, yn cael effaith gadarnhaol iawn ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg i drafod materion yn ymwneud â'r gyfraith.

## Atodiad A – Rhestr o ymatebwyr

---

Unigolion:

1. Dienw
2. Keith Bush CF, Ysgol y Gyfraith Hillary Rodham Clinton, Prifysgol Abertawe
3. Trevor Coxon, Pwyllgor Cymru o Gymdeithas y Cyfreithwyr a chyn Swyddog Monitro Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
4. Richard W Ebley
5. Dr Tom Hannant, Ysgol y Gyfraith Hillary Rodham Clinton, Prifysgol Abertawe
6. Dr Catrin Fflûr Huws, Ysgol y Gyfraith, Prifysgol Aberystwyth
7. Huw Williams (Partner) a Clare Hardy (Uwch Gydymaith), Geldards LLP

Sefydliadau a busnesau:

8. Cymdeithas Cyfreithwyr Cymry Llundain
9. Grŵp Ymchwil ar Gyfraith Gyhoeddus, Ysgol y Gyfraith Bangor
10. Capital Law Limited
11. Cyngor y Trydydd Sector Caerdydd
12. Myfyrwyr sy'n astudio ar y Cwrs Diploma yn y Gyfraith i Raddedigion Prifysgol Caerdydd: Ieuan Callaghan, Grace Ferguson-Throne, Isabelle Knight, Rhianna Paige Hardy, Phyllida Spackman
13. Y Comisiwn Penodiadau Barnwrol, yr Athro Noel Lloyd CBE, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cymreig
14. Comisiwn y Gyfraith ar gyfer Cymru a Lloegr
15. Cymdeithas Ddysgedig Cymru
16. Yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr
17. Clinig y Gyfraith Abertawe
18. Cymdeithas y Cyfreithwyr, Cymru
19. Undeb Prifysgolion a Cholegau (Cymru)
20. Comisiynydd y Gymraeg